# SL(5)487 - Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) 2020

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi'r gyfradd safonol, y gyfradd is a'r gyfradd ar gyfer gwarediadau heb eu hawdurdodi mewn perthynas â'r dreth gwarediadau tirlenwi y gellir eu codi ar warediadau trethadwy, a wneir ar ôl 1 Ebrill 2020.

Dyma'r cyfraddau o 1 Ebrill 2020 ymlaen:

- Y gyfradd safonol yw £94.15 y dunnell;
- Y gyfradd is yw £3.00 y dunnell;
- Y gyfradd ar gyfer gwarediadau heb eu hawdurdodi yw £141.20 y dunnell.

Bydd gwarediadau trethadwy a wneir ar, neu ar ôl, 1 Ebrill 2019, ond cyn 1 Ebrill 2020, yn parhau i fod yn ddarostyngedig i'r cyfraddau a ragnodwyd yn Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) 2018 (S.I. 2018/1209 (W. 246)).

Bydd y cyfraddau safonol ac is ar gyfer treth tirlenwi'r DU yn gyson â'r cyfraddau ar gyfer treth gwarediadau tirlenwi yng Nghymru o 1 Ebrill 2020 ymlaen (nid yw treth tirlenwi'r DU yn cynnwys cyfradd gyfwerth â'r gyfradd ar gyfer gwarediadau heb eu hawdurdodi yng Nghymru).

## Gweithdrefn

Cadarnhaol dros dro

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**21.3(i) (ei fod yn codi tâl ar Gronfa Gyfunol Cymru neu ei fod yn cynnwys darpariaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol i daliadau gael eu gwneud i'r Gronfa honno neu i unrhyw ran o'r llywodraeth neu i unrhyw awdurdod lleol neu gyhoeddus yn gydnabyddiaeth am unrhyw drwydded neu gydsyniad neu am unrhyw wasanaethau sydd i'w rhoi, neu ei fod yn rhagnodi swm unrhyw dâl neu daliad o'r fath).**

Mae adran 25 o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 yn nodi bod yn rhaid i Awdurdod Refeniw Cymru dalu symiau a gesglir wrth arfer ei swyddogaethau i Gronfa Gyfunol Cymru. Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi'r tair cyfradd ar gyfer treth gwarediadau tirlenwi yng Nghymru.

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â’r Undeb Ewropeaidd

Ni nodir unrhyw oblygiadau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Ymateb y Llywodraeth

Nid oes angen ymateb gan y llywodraeth.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**
**Ionawr 2020**